All Wales Forum
Fforwm Cymru Gyfan

DIWEDDARIAD CEREDIGION
Chwefror
2016

Newyddion a Datblygiadau

Croeso i ddiweddariad Ceredigion...

GRANT GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYNALIADWY Y TRYDYDD SECTOR 2016-19

Pwrpas y grant newydd yw cefnogi blaenoriaethau Gweinidogion Cymru i feithrin perthynas newydd a chyfartal rhwng pobl ac ymarferwyr, ymyrraeth gynnar ac atal a thrawsnewid y ffordd y caiff anghenion gofal a chymorth pobl eu bodloni.

Mae **Ff**orwm **C**ymru **G**yfan yn falch o gyhoeddi bod ei gais am grant wedi bod yn llwyddiannus sy'n golygu nid yn unig ei fod yn gallu parhau â'i waith presennol ond hefyd ystyried y prosiect newydd, mawr ei angen, sef **'Law yn Llaw'**, sy'n bartneriaeth â'r Gymdeithas Alzheimer, Cartrefi Cymru a ffederasiwn rhieni Caerdydd a'r Fro. Mae pedwar llinyn i'r prosiect hwn:

Sylfeini'r Teulu - gweithio gyda theuluoedd iau
Adeiladu cymunedau cryf - teuluoedd oedran gwaith
Heneiddio'n dda - teuluoedd hŷn
Cyfathrebu'n dda â'n gilydd - prosiect cyfathrebu cenedlaethol.

Bydd y prosiect yn ystyried pethau fel seibiant, symud i fyw i'r gymuned, mentrau cymdeithasol, gofal dementia ac ati, drwy weithio ar y cyd â gofalwyr a'r sefydliadau ar draws Cymru.

Mae llwyddiant y cais am grant yn blu yn het y rhai a fu'n rhan o'r broses o'i gyflwyno. Rwy'n ei weld hefyd yn fynegiant clir o gefnogaeth ar gyfer nod craidd Fforwm Cymru Gyfan, sef 'Cael llais cenedlaethol a chydnabyddiaeth i rieni a gofalwyr plant ac oedolion sy'n byw gydag anableddau dysgu yng Nghymru.'

Rwy'n credu bod y grant yma'n cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl gadarnhaol y mae Fforwm Cymru Gyfan wedi'i chwarae ac y bydd yn parhau i'w chwarae fel y corff cenedlaethol ar gyfer teuluoedd sy'n ofalwyr.

Mae **Turning Point** wedi lansio pecyn cymorth iechyd newydd, wedi'i ysgrifennu a'i ddatblygu gan dîm ymroddedig o nyrsys sy'n ceisio gwella iechyd a lles pobl ag anableddau dysgu. Mae hon yn ddogfen gyfeirio dda iawn gyda dim ond 100 o dudalennau i'w defnyddio pryd ac fel y bo angen. Bydd o fudd i ofalwyr a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd. **Pecyn Cymorth Iechyd Turning Point** - ***cliciwch ar y ddolen - mae'n werth cael cip arno.***

Cofion gorau, Roger

DYDDIADAU A DIGWYDDIADAU I'CH DYDDIADUR

Cyfarfod Fforwm Rhieni a Gofalwyr Ceredigion

Nos Fercher 16 Mawrth 2016 am 6.30pm
Gwesty'r Plu, Aberaeron.

++++++

Fferm Ofal Clynfyw
Twrnamaint pêl-droed dan do gallu cymysg.
Dydd Llun 15 Chwefror
10.30-3.00pm
Canolfan Hamdden Aberteifi
I godi arian ar gyfer Cymdeithas Syndrom Down.
Bydd chwaraewyr rhy gystadleuol yn arwain at ddyfarnwyr blin a CHARDIAU COCH! Dewch i gael hwyl!!! £10 y tîm o 5.
I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch: 01239 841236

++++++

'Star Wars
The Force Awakens'
I deuluoedd plant ag anghenion ychwanegol. **18 Chwefror.** 11am.
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
I gadw lle AM DDIM neu i gael rhagor o wybodaeth
Ffôn 07738826510

++++++

Cynhadledd Awtistiaeth Ceredigion 2016
Yr Hen Goleg, Aberystwyth
Dathlu Diwrnod Ymwybyddiaeth Awtistiaeth y Byd **Dydd Gwener 1 Ebrill.**
Siaradwyr: Robyn Stewart a Sarah Hendrickx
Manylion ar sut i gadw lle i'w ddilyn neu ffoniwch fi.

Ff C G

Fforwm Cymru Gyfan i Rieni a Gofalwyr Pobl ag Anabl-eddau Dysgu

Adeiladau Elliot
21, Cardiff Road
Ffynnon Taf
Caerdydd. CF14 7RB
Ffôn:
02920 811120
E-bost:
roger@allwalesforum.org.uk

Hyrwyddo buddiannau Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu

All Wales Forum
Fforwm Cymru Gyfan

Newyddion arall...

Lwfans Gofalwyr - ateb eich cwestiynau
Mae CONTACT a FAMILY wedi cynhyrchu cyfres fach o bodlediadau newydd i helpu ateb rhai o'ch cwestiynau cyffredin am Lwfans Gofalwyr. Os ydych erioed wedi meddwl a ydych yn gymwys i gael Lwfans Gofalwyr, os byddech chi'n well eich byd yn ariannol drwy ei hawlio, neu sut y bydd eich enillion neu arbedion yn effeithio ar eich cais, dyma'r podlediad i chi.

Gwasanaeth Gwybodaeth i'r Teulu Ceredigion. Pryd oedd y tro diwethaf i chi droi at wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i'r Teulu? Mae llawer o wybodaeth yno ac adran 'Beth sy mlaen'. Gallwch anfon manylion am ddigwyddiad neu erthygl newyddion hefyd ar gyfer ei fwletin. Anfonwch yr wybodaeth at **fis@ceredigion.gov.uk** erbyn **canol dydd ar ddydd Llun** a bydd yr wybodaeth yn cael ei chynnwys yn ei fwletin nesaf. Pan wnes i edrych, sylwais fod y Canolfannau i'r Teulu yn y Borth, Penparcau a Llanbedr Pont Steffan i gyd yn darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys plant ag anableddau dysgu (dwi wedi gofyn). Maen nhw hefyd yn darparu ar gyfer plant hyd at 12 oed yn ystod gwyliau ysgol.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi sawl Cod Ymarfer a Chanllawiau Statudol yn ymwneud â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n ***rhaid*** i awdurdodau lleol ddilyn y gofynion yn y dogfennau hyn (cliciwch ar y ddolen isod). Codau Ymarfer a Chanllawiau Statudol.

YMGYNGHORIADAU

(Daliwch 'control' i lawr a chliciwch ar y teitlau am y dolenni)

CYNLLUN BATHODYN LAS YNG NGHYMRU
Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu'r cynigion canlynol: Cynnwys pobl â namau symudedd dros dro o fewn y meini prawf cymhwyster / cynigion i symleiddio'r broses gwneud cais i rai pobl sydd wedi cael bathodyn o'r blaen / cynigion i wella gorfodi mewn achosion o gamddefnyddio'r Cynllun Bathodyn Las.
Dod i ben 16/02/2016

CYNLLUN GWELLA - AMCANION 2016-17: YMGYNGHORIAD. **Dod i ben 25/02/16**
Mae **Cyngor Sir Ceredigion** yn ceisio eich barn chi ar flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2016-17. Mae 5 Amcan Gwella arfaethedig ganddynt ar gyfer y flwyddyn i ddod .

LAW YN LLAW AT IECHYD MEDDWL - CYNLLUN CYFLENWI 2016-2017.
Cyhoeddwyd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn 2012. Cynllun cyflenwi 2016-19 arfaethedig yw'r ail o dri chynllun a fydd yn ategu'r strategaeth.
Dod i ben 04/04/16

Arolwg: Oes angen gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl i bobl dros 50 oed yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin?
(Cliciwch uchod i gysylltu â Surveymonkey.)

FFORWM RHIENI A GOFALWYR

GRŴP FACEBOOK: Mae un o'n haelodau yn ceisio trefnu rhai dyddiadau chwarae gyda theuluoedd yn ardal Aberystwyth ar gyfer ei mab 14 oed sy'n awtistig. Manylion llawn i'w gweld ar dudalen Facebook Fforwm Rhieni a Gofalwyr Ceredigion (cliciwch ar y ddolen hon). Allwch chi helpu? Os oes gennych chi blentyn ag anabledd dysgu mae croeso i chi ymuno â'r grŵp.

Trefniadau ar gyfer Grant Byw'n Annibynnol Cymru yn y Dyfodol Dylai gofalwyr sy'n derbyn y grant, y Gronfa Byw'n Annibynnol gynt, fod wedi cael llythyr gan Lywodraeth Cymru trwy'r cyngor. Os nad ydych wedi'i gael, cysylltwch â Heather Del, Uwch Swyddog Cyllid, Cyngor Sir Ceredigion ar y rhif ffôn 01545 572607, neu'ch Gweithiwr Cymdeithasol.

Rydym bob amser yn ceisio cynyddu aelodaeth o'n Fforwm. Hoffech chi ymuno? Anfonwch e-bost cyflym ataf neu codwch y ffôn. Diolch.

Fforwm Cymru Gyfan
Swyddog Datblygu Gofalwyr Ceredigion
Roger Colman
E-bost roger@allwalesforum.org.uk
Ffôn 01545 580232
Ymunwch â ni ar Facebook
Fforwm Rhieni a Gofalwyr Ceredigion